Diweddaru cegin fwd

Trosolwg

Mae'r gweithgaredd hwn yn diweddaru'r modd y caiff y gegin fwd ei defnyddio, ac mae'n canolbwyntio ar ddysgu chwaraegar, adnoddau, y dychymyg a phrofiadau cyffredin yn hytrach nag ar y man ei hun.



Gweithgareddau

Gosodwch lestri, sosbenni a llwyau yn y gegin fwd a gwahoddwch y plant i ddechrau cymysgu mwd ag ychydig o ddŵr. Mae dŵr yn rhan bwysig o'r gweithgaredd hwn, a chaiff y plant eu hannog i benderfynu faint y dylent ei ychwanegu ac i sylwi beth sy'n digwydd os nad oes digon o ddŵr neu os oes gormod ohono. Mae oedolion yn chwarae ochr yn ochr â'r plant, ac yn casglu ac yn ychwanegu darnau rhydd naturiol megis dail, cerrig, petalau a brigau er mwyn cadw'r chwarae yn benagored ac yn ddiddorol. Dyma beth yw meddwl yn wyddonol, chwarae'n ddychmygus, a chreadigrwydd.

Offer

- Cegin fwd
- Llestri, sosbenni a llwyau
- Mwd a phridd
- Jygiau dŵr neu ganiau dyfrhau
- Darnau rhydd naturiol (dail, cerrig, petalau, brigau)

Cwestiynau allweddol

…beth fydd yn digwydd os byddaf yn ychwanegu mwy/llai o ddŵr?
…beth gallwn i ei ychwanegu nesaf at fy nghymysgedd?
…beth fydd yn digwydd os byddaf yn cymysgu'r rhain â'i gilydd?
…ar gyfer pwy mae fy mwyd neu fy nghymysgedd?
…sut gallaf newid fy rysáit?

Deilliannau dysgu

Cyfathrebu ac iaith – sgwrsio a rhannu syniadau
Datblygiad corfforol – troi ac arllwys
Datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol – cyd-chwarae
Deall y byd - archwilio deunyddiau

Syniadau am straeon i'w cysylltu â'r gegin fwd:

Mwd, Mwd a Mwy o Fwd – addasiad gan Rhiannon Davies a Dewi Pws Yr Iâr Fach Goch – coginio, cynhwysion a rhannu bwyd
Cacen Fwd Swyn (Trac gan Stori Tic Toc)